Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

# ADRAN ADNODDAU DYNOL

## Swyddog AD - Rheoli Presenoldeb

**GRADDFA 7**
**30 awr yr wythnos**

**CYFLOG: o £22,021 – i £23,836 pro rata**
**(bydd yr holl swyddi'n amodol ar werthusiad swydd)**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf blaenllaw'r DU a'r mwyaf o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae ardal ein Gwasanaeth yn ymestyn o Gas-gwent yn y dwyrain i Bort Talbot yn y gorllewin ac o arfordir y de i Fannau Brycheiniog yn y gogledd. Rydym yn gweithredu o 49 gorsaf dan ar draws ardal y Gwasanaeth ac mae ein Pencadlys yn Llantrisant.

Mae swydd barhaol ar gyfer Swyddog AD - Rheolwr Presenoldeb wedi codi o fewn ein Hadran Adnoddau Dynol gyda Gwasanaeth Tan ac Achub De Cymru. Lleolir y swydd yn ein Pencadlys yn Llantrisant a swydd 30 awr yr wythnos yw hi.

**Ai chi yw hwn? -** Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a threfnus i weithio o fewn ein Hadran Adnoddau Dynol prysur gan ddarparu cyngor ac arweiniad ar holl weithgarwch yn ymwneud ag absenoldebau'n salwch.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynorthwyo'r adran wrth gyflwyno gwasanaetha AD proffesiynol a bydd yn aelod allweddol o fewn y î. Byddwch chi'n cael profiad o weithio mewn rôl Swyddog AD; cynorthwyo Rheolwyr Llinell i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli presenoldeb; defnyddio Microsoft Office a systemau AD i dracio a monitro absenoldebau salwch, y gallu i weithio mewn cydymffurfiaeth llwyr a pholisiau a gweithdrefnau cyfrinachedd a gallu cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenediig ill dau ag ystod eang o gynulleidfaoedd.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol sylfaenol ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gweithio i Ni /Swyddi Gwag Diweddaraf ar ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk Dylid cyflwyno ffurflenni cais gorffenedig drwy law e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk neu gyda'r post i'r Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tan ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Noder: **NID YDYM YN DERBYN CV**

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: yr 18fed o Awst 2020 am 12:00 ganol dydd.**
Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

disability confident COMMITTED